

## ASTUDIAETH ACHOS 2

# Gwasanaeth Cydlynu Iechyd a Llesiant Cymunedol Powys PAVO: Helpu pobl a'u teuluoedd a'u gofalwyr i gael at gymorth yn y gymuned

### CYNNWYS

1. Cyd-destun
2. Nodweddion allweddol
3. Mynediad
4. Beth weithiodd yn dda?
5. Beth a ddysgwyd?
6. Heriau
7. Effaith
8. Casgliad

### CYD-DESTUN

Mae'r ail astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar ddatblygiad Gwasanaeth Cydlynu Iechyd a Llesiant Cymunedol a ddarperir gan Gysylltwyr Cymunedol ledled Powys. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phobl 18 oed a hŷn a'u teuluoedd a'u gofalwyr i gael at gymorth a gweithgareddau yn y gymuned leol. Y prif nod yw cefnogi pobl i aros yn annibynnol drwy weithredu'n gynnar ac atal pethau rhag gwaethygu a throï'n argyfwng. Datblygodd y gwasanaeth o fodel brocera trydydd sector (2 frocer) ac roedd wedi'i leoli o fewn Pwynt Mynediad Unigol Cyngor Sir Powys, a elwir bellach Llinell Uniongyrchol Powys, ond *'yn sydyn, wrth i atgyfeiriadau ddod i mewn, roedd hi fel ffair... yn cael ein boddi gan y galw'*. O ganlyniad, daeth y gwasanaeth cydlynu i'r amlwg fel model gwell gan roi cylch gwaith ehangach i Gysylltwyr Cymunedol weithio ar draws lleoliadau lluosog. Ar hyn o bryd, ceir 10 Cysylltydd Cymunedol ledled y sir a chydlynedd sy'n rheoli'r gwasanaeth.

### NODWEDDION ALLWEDDOL 2.

- Teimlwyd bod y **dull partneriaeth** a ddatblygwyd ledled Powys yn unigryw. Mae'r gefnogaeth i'r gwasanaeth gan bob partner-asiantaeth yn bositif ac yn deillio o'r berthynas a ffurfiwyd â phartneriaid statudol ac eraill.
- **Anghenion** sy'n llywio'r gwasanaeth; gan ganfod cyfleoedd, cymorth a gweithgareddau lu, yr oedd llawer ohonynt yn gofyn am *'feddwl yn arloesol'* i ymateb yn effeithiol ac yn gyson i bobl sy'n chwilio am gymorth. Cam wrth gam i ennyn ffydd yr unigolyn.
- Roedd yn bwysig *'gwneud pethau'n gywir y tro cyntaf'*, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r cleient i osgoi siom ac argyfwng a hybu ffydd rhwng y Cysylltydd Cymunedol a'r cleient.
- Bu gweithio gyda Gweithwyr Cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill o gymorth i godi proffil y gwasanaeth a pha fathau o gysylltiadau y gellid eu gwneud ar draws y trydydd sector, nad oeddynt yn ymwybodol ohonynt neu heb gael atynt o'r blaen.
- Mae'n wasanaeth amhenodol, gan weithio ar draws lleoliadau lluosog.



### MYNEDIAD 3.

- Lleoli'r gwasanaeth o fewn cyngor gwirfoddol sirol gan adeiladu ar yr hyn a oedd eisoes yno (brocerwyr Trydydd Sector) a darparu pwynt mynediad annibynnol a chyfartal i'r gymuned. Yn agored i bawb, teimlwyd:
- Y byddai darparu gwasanaeth drwy un mudiad yn hytrach na dosbarthu cyllid i lawer yn wasgaru adnoddau'n rhy eang ac na fyddai'n hollol hygyrch i'r rheini a oedd angen cymorth. Gall y gwasanaeth gael at wasanaethau, a chyfeirio atynt, ym mhob rhan o Bowys ac nid at restr ddiffiniedig o fudiadau neu weithgarwch. Mae'r gwasanaeth yn eang ac yn rhagweithiol yn ei fwriad.
  - Bod bod yn rhan o Rith-ward gyda Chysylltydd Cymunedol mewn swyddfa yng nghanol un o'r wardiau mewn ysbyty lleol yn galluogi ymateb cyflymach. Rhoddodd y cyfle i ddechrau sgwrs â chleifion am y mathau o gymorth cymunedol y gall fod arnynt ei angen ar ôl gadael yr ysbyty.
  - Bod lleoli'r gwasanaeth o fewn Llinell Uniongyrchol Powys, gydag aelodau o'r tîm dyletswydd ar rota, wedi arwain at drosglwyddiad ar unwaith i Gysylltydd Cymunedol, a oedd yn gallu asesu ac ymyrryd yn sydyn wrth i'r rôl ddechrau ennill ei phlwyf.

**Gweithio gyda phartneriaid statudol:** Mae'r berthynas bositif a ffurfiwyd rhwng PAVO ac arweinwyr strategol a gweithredol yn yr awdurdod lleol ac â chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio'n dda. Mae'r gwasanaeth wedi cysoni ei gylch gwaith â nodweddion allweddol y Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol sef Dechrau'n dda, Byw'n dda a Heneiddio'n dda ym Mhowys. Mae'r Uwch Swyddog, Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PAVO) yn cynnal sesiynau rhagweithiol 1:1 ag uwch arweinwyr iechyd ac o'r awdurdod lleol ac maent yn awyddus i gydweithio i osgoi dyblygu ymdrech, ond hefyd i ddatblygu gwasanaethau, a all fod yn fwy addas yn y trydydd sector.

**Gweithio'n holistaidd, gan ymateb i angen:** Caiff y gwasanaeth ei lywio gan anghenion, gan ddechrau sgysiau 'Beth sy'n Bwysig' â phobl a pheidio â rhagdybio sut i ymateb a *'gorfodi peg sgwâr i dwll crwn.... nid yr ymateb yw "dyma ti beth sydd ar gael a dyma'r cwbl y byddi yn ei gael"'*

**Deall egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac ymateb iddynt:** Mae'r gwasanaeth yn ceisio gweithio tuag at ymateb i egwyddorion y Ddeddf ac wedi cael ceisiadau amrywiol iawn am gymorth ar gyfer atal cwmpo, gweithgareddau i gael at fannau gwyrdd a glas yn y gymuned, gweithio gyda chartref gofal i annog ymarfer corff drwodd i drefnu i wirfoddolwr ofalu am geffylau pan oedd cleient yn gorfod mynd i'r ysbyty yn eithaf pell o'i gartref.

#### Meddu ar wybodaeth leol:

Roedd ymateb i'r hyn yr oedd pobl ei eisiau yn agwedd bwysig ar y gwasanaeth. *'Anaml iawn yr ydym yn methu ag ymateb heblaw os nad oes yr un gwasanaeth ar gael....nid oes cyfyngiad arnom felly rydym bob amser yn meddwl yn arloesol'*. Mae gan y Cysylltwyr wybodaeth a phrofiad o'r mathau o wasanaethau, cymorth a gweithgareddau sydd ar gael mewn cymunedau lleol. Mae'r Cysylltwyr mewn sefyllfa dda i gysylltu, cydlynu a darparu mynediad at wasanaethau, sydd yn draddodiadol efallai heb eu defnyddio'n llawn neu wedi'u hanwybyddu fel ffordd bwysig o gynig dewisiadau amgen i bobl.

**Defnyddio technoleg gynorthwyol:** Mae system ap symudol i gleifion o Bowys sy'n cael eu rhyddhau o Ysbyty Brenhinol Amwythig yn gweithio'n dda. Mae Therapydd Galwedigaethol yn egluro rôl y Cysylltydd ac anfonir negeseuon testun ar ôl iddynt gael eu rhyddhau (6 wythnos o negeseuon) i weld sut maent yn ymdopi gartref. Anfonir neges ar ôl 3 wythnos yn cyflwyno'r gwasanaeth i'r claf ac yn ei annog i gysylltu i gael gwybod pa weithgareddau a chymorth sydd ar gael yn lleol.

**Gweithio gyda'r gwasanaeth ambiwlans:** Mae parafeddygon bellach yn cyfeirio'r rheini maent yn eu gweld dro ar ôl tro at y gwasanaeth, er enghraifft, pan fo rhywun wedi cwmpo a chael triniaeth yn y fan a'r lle ond ddim angen ei gludo i'r ysbyty. Yn aml, mae'r parafeddygon yn gweld problemau neu bryderon eraill yn y cartref ac yn awgrymu y gallai'r trydydd sector, drwy gymorth Cysylltydd, ei helpu yn hytrach na ffonio Ambiwllans Cymru eto.

#### Sbarduno diddordeb, creu cysylltiadau:

*'Rydym wedi bod yn gweithio gyda Rheolwr ein Canolfan Wirfoddoli ynglŷn â defnyddio gwirfoddolwyr mewn ysbytai ac fe weithiodd y Rheolwr yn agos gyda'r Bwrdd Iechyd a ninnau i lunio polisi Gwirfoddoli priodol gyda'r Bwrdd Iechyd a chreu cysylltiad â'r colegau lleol fel y gellir lleoli myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn yr ysbytai lleol. Sbardunwyd hyn gan bresenoldeb Cysylltydd mewn cyfarfod Tîm Amlddisgyblaeth'.*



## BETH SY'N GWNEUD CYSYLLTYDD CYMUNEDOL?

Mae sawl gwedd i rôl Cysylltydd Cymunedol yng ngwasanaeth PAVO; gan weithio ar draws yr agenda iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Mae ganddynt gylch gwaith generig i weithio gyda chleientiaid o bob oed (18+) a'u teuluoedd/gofalwyr. Fe'u hariennir drwy'r Gronfa Gofal Integredig, a lleolir y tîm o 10 Cysylltydd mewn lleoliadau amrywiol sy'n wahanol i rôl y Presgripsiynydd Cymdeithasol, sydd fel arfer mewn meddygfa neu glwstwr meddyg teulu neu o fewn Canolfan Iechyd a Llesiant. Ymddengys mai dyma'r model a ffeirir yn Lloegr, er bod model y Cysylltwyr Cymunedol yn bodoli mewn cynghorau gwirfoddol sirol eraill ac mewn mudiadau trydydd sector mawr sy'n gweithio gyda grwpiau cleientiaid penodol.

### Mae'r Cysylltwyr Cymunedol ym Mhowys yn:

- Llawn brwdfrydedd, empathi ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ymateb yn hyblyg i anghenion y cleient - *'dydych chi byth yn gwybod beth fyddwch yn ei gael'*.
- Gweithio gydag uniondeb a gonestrwydd, gan beidio ag addo rhywbeth na ellir mo'i wneud.
- Gweithio gyda'r cleient i gyd-ddatblygu cynllun personol, gan fanteisio ar wasanaethau, cymorth a gweithgareddau, ond *'mae'n fwy na dim ond cysylltu pobl â gwasanaethau lleol sy'n bodoli, os nad ydynt yn bodoli mae'r Cysylltwyr yn llywio datblygiad y rheini'*.
- Cyfathrebu'n dda, ac mae ganddynt sgiliau rhyngpersonol rhagorol a hyfforddiant uwch, gan allu ymgysylltu ar bob lefel.
- Aelodau gwerthfawr o dîm, ond yn gallu gweithio'n annibynnol heb lawer o oruchwyliaeth. Er hynny, mae trefniadau goruchwyllo yn eu lle a chynhelir sesiynau adfyfyriol.
- Gallu delio ag achosion cymhleth ac anodd ac *'yn fwy na gwasanaeth atgyfeirio yn unig; dwi'n meddwl bod angen i ni gael gwared â'r gair arwyddbostio yn llwyr gan ein bod yn gwneud llawer mwy, rydym yn rhoi cymorth ymarferol i rywun gael at y wybodaeth angenrheidiol'*.
- Llawn gwybodaeth am y cymunedau ble maent yn gweithio a beth a phwy sydd ar gael yno.
- Llawn gwybodaeth am iechyd a gofal cymdeithasol ac yn gallu rheoli achosion cymhleth. Daw'r Cysylltwyr o gefndiroedd proffesiynol amrywiol, gan gyfoethogi'r gwasanaeth. Mae Cydlynnydd y gwasanaeth yn gyn-ddiffoddwr tân, ond hefyd wedi bod yn weithiwr achos i AS ac AC, felly'n hyddysg iawn ynglŷn â sut i ymateb i drafferthion a phryderon sy'n wynebu etholwyr lleol.
- Gallu datblygu partneriaethau effeithiol a gweithio gyda mudiadau a thimau amrywiol.
- Gallu cydlynu a rhoi cysondeb, *'bob amser yn bositif'* ac yn gallu addasu a blaenoriaethu; gan wybod pryd i atgyfeirio'n ôl at gymorth statudol mwy arbenigol.
- Gallu cefnogi amcanion pobl drwy ganolbwyntio ar lesiant.
- Helpu i leihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigedd drwy eu cefnogi i fod yn fwy annibynnol ac ymwybodol o newidiadau y gallant eu gwneud i ddatblygu ffordd iachach o fyw a dod yn weithgar yn gymdeithasol.

## YMATEB I ANGHENION Y CLEIENT

Tra mae cleientiaid yn aml yn cael eu hatgyfeirio oherwydd un peth, prin iawn y mae'r sefyllfa'n syml, ac fel arfer mae ganddynt anghenion lluosog. Yn ystod Chwarter 3 (2017-18) adroddwyd bod 74:1208 o bobl a oedd yn yr ysbyty ym Mhowys wedi'u cefnogi gan Gysylltydd Cymunedol. Er enghraifft, roedd cwpl a oedd wedi gwario eu cynilon i dalu am lawdriniaeth y wraig yn aros i gael eu rhyddhau ac yn eiddgar i fynd adref. Serch hynny, roedd rhestr aros ar gyfer Ailalluogi. Roedd y Cysylltydd Cymunedol eisoes wedi meithrin perthynas â'r claf, ac ymatebodd drwy:

- Cysylltu â Gwasanaeth Gartref o'r Ysbyty y Groes Goch Brydeinig fel y gall y claf fynd adref drannoeth gyda threfniadau cymorth yn eu lle. Roedd hyn yn osgoi arhosiad estynedig o 4 wythnos, sydd o fudd i'r claf ac yn arbed arian drwy sicrhau bod y gwely ar gael yn brydlon i rywun arall.
- Cysylltu ag Age Cymru gan fod y cwpl wedi defnyddio eu cynilon i gyd ar gyfer y llawdriniaeth ac roedd arnynt angen cymorth ariannol.
- Darbwyllo'r dafarn leol i ddarparu prydau bwyd gan nad oes gwasanaeth cludo pryd poeth ym Mhowys. Am sawl wythnos, aeth aelod o staff o'r dafarn â phryd o fwyd iddynt o ben arall y pentref, hyd nes yr oedd cymorth mwy hirdymor wedi'i drefnu.



**Meithrin perthynas:** Mae'n cymryd amser i feithrin perthynas â chleient, i ennill ei hyder, ond hefyd â gweithwyr proffesiynol eraill. Mae barn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol o'r gwasanaeth wedi newid wrth i rôl y Cysylltwyr ennill ei phlwyf a dod yn fwy gweladwy mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn fwy tebygol o atgyfeirio rhywun at Gysylltydd nac yr oeddynt at y gwasanaeth brocera gwreiddiol gan fod perthynas dda wedi'i ffurfio. Mae atgyfeiriadau at wasanaeth y Cysylltwyr Cymunedol wedi cynyddu'n sylweddol ers y Gwasanaeth Brocera Trydydd Sector gwreiddiol ac mae atgyfeiriadau'n cyrraedd y cannoedd yn gyson bob mis.

**Mwy nag arwyddbostio:** Mae Cysylltwyr Cymunedol yn gwneud mwy nag arwyddbostio yn unig. Teimlwyd bod angen cael gwared â'r gair 'arwyddbostio' o eirfa cysylltu cymunedol gan fod y Cysylltwyr yn rhoi cymorth ymarferol i bobl gael at y gwasanaethau angenrheidiol.

**Bod yn gatalydd:** Mae'r tîm o Gysylltwyr Cymunedol wedi datblygu i fod yn gyfrwng i gydgyhyrchu gweithgareddau yn benodol i ardal leol, a oedd yn un o ganlyniadau annisgwyl y gwasanaeth. Roedd y tîm o Gysylltwyr Cymunedol, wedi'u lleoli o fewn cymunedau, yn gatalydd i gydgyhyrchu cymorth a gwasanaethau; gan ddod â phobl at ei gilydd a oedd angen gwasanaeth tebyg pan nad oedd un yn bodoli o'r blaen. Mewn un achos cynigiodd caffi lleol ddarparu lle i grŵp o bobl gwrdd a oedd ag angen tebyg.

**Galw lluosog:** Amlygodd yr astudiaeth achos yr angen i ymateb i'r anghenion niferus y gall cleient eu cyflwyno wrth gael ei atgyfeirio. Mae angen i Gysylltwyr Cymunedol edrych ar sawl opsiwn i lunio pecyn cymorth, ond hefyd yn gyntaf weithio o safbwynt asedau neu gryfderau'r person ei hun. Mae hi wedi bod yn bwysig bod â mynediad at wasanaethau, a gwybod am eu hargaeledd, ledled y sir o grŵp trafod lleol, siop leol sy'n cludo hanfodion i bobl sy'n gaeth i'r tŷ drwodd i'r darparwyr trydydd sector cenedlaethol mawr.

## Heriau

## 6.

**Roedd llawer o heriau a materion yr oedd angen mynd i'r afael â nhw wrth i'r gwasanaeth dyfu:**

- **Canfod "Lleoliadau" addas:** Er bod gwasanaeth sydd â lleoliad canolog yn ased gwerthfawr, roedd canfod lleoliadau lleol addas a hygyrch i Gysylltwyr yn y gymuned yn anodd. Cymerodd amser i'w trefnu, gan fethu yn aml wrth ddelio gyda rhai adrannau ystadau yn yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd. Roedd rhai meddygfeydd yn fwy agored a chroesawgar i Gysylltwyr.
- **Systemau:** Roedd yn arbennig o heriol datblygu Polisi Rhannu Gwybodaeth ar draws mudiadau. Tra mae Cysylltwyr yn rhan o Linell Uniongyrchol Powys (tîm dyletswydd), yn mynychu cyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaeth, yn rhan o'r Rhith-wardiau ac â mynediad at y system a ddefnyddir gan Linell Uniongyrchol Powys, nid yw'r system fonitro flaenorol yn cipio'r data y mae'r gwasanaeth newydd ei angen er dibenion adrodd nac â'r un canlyniadau. Mae PAVO yn ystyried defnyddio system casglu data amgen fel y gall fesur canlyniadau'r gwasanaeth newydd ac adrodd arnynt. Mae Cydlynedd y gwasanaeth yn llunio adroddiadau chwarterol a blynyddol a werthfawrogir yn fawr ac y mae galw mawr amdanynt.
- **Newid agweddau proffesiynol:** Mae adegau wedi bod pan nad yw rôl y Cysylltwyr wedi'i derbyn, ac mewn un achos, er nad dyma'r norm, roedd gweithiwr iechyd proffesiynol yn gwrthod ateb galwad gan nad oedd y Cysylltydd yn weithiwr iechyd proffesiynol. Mae'r broblem hon wedi'i datrys. Mae cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheoli achosion a goruchwyliaeth ag uwch ymarferwyr mewn gwasanaethau cymdeithasol yn helpu i hybu dealltwriaeth o'r gwasanaeth a newid agweddau a meddyliau gweithwyr proffesiynol. Rhoddodd gyfle i egluro sut mae'r Cysylltwyr Cymunedol yn gweithio, '*agor drysau eraill*' nad oedd eu cydweithwyr statudol yn ymwybodol ohonynt o'r blaen neu rwydweithiau mewn cymunedau lleol nad oedd ganddynt fynediad atynt.



*'Mae gweithio gyda gweithwyr cymdeithasol ac yn wir gweithwyr statudol eraill wedi codi proffil y trydydd sector yn fawr o ran y math o gysylltiadau y gallwn eu gwneud....ac yn wir mae staff yn hyderus i gyfeirio pobl at ein gwasanaeth gan eu bod yn gwybod y byddwn yn gweithredu'*

**Cysylltu pobl ledled Powys:**

Mae'r adborth gan gleientiaid wedi bod yn bositif gyda *'phobl yn dweud eich bod wedi bod o gymorth mawr, dydw i erioed wedi cael cymorth o'r blaen!'* Mae'r gwasanaeth wedi cysylltu dros fil o bobl ym Mhowys yn y flwyddyn diwethaf (ar adeg y cyfweiliad). Y gwasanaeth erbyn hyn yw'r atgyfeiriwr mwyaf at y gwasanaeth i ofalwyr lleol Credu - cysylltu gofalwyr. Mae gwybodaeth am y gwasanaeth a'i weledd mewn cymunedau lleol wedi lledaenu ledled y sir ac mae pobl bellach yn hunanatgyfeirio am gymorth gan Gysylltwyr.

**Codi proffil y gwasanaeth:**

Mae cydweithio â gweithwyr gofal cymdeithasol ac iechyd wedi codi proffil y gwasanaeth. Hefyd, mae hyn wedi codi proffil y trydydd sector a pha gymorth a gwasanaethau y gall y sector eu cynnig. Yn yr un modd, mae'r cyhoedd bellach yn fwy ymwybodol o'r hyn y gall y trydydd sector ei ddarparu o ran gwybodaeth, cyngor a chymorth, gwasanaethau nad oeddynt yn gwybod amdanynt o'r blaen yn eu cymuned leol.

**Ennyn ymddiriedaeth a hyder:**

Mae'n bwysig bod y rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gwybod y gallant ymddiried ynddo a *'bod ganddynt y sicrwydd o rywle y gallant fynd iddo i gael y wybodaeth maent ei hangen...gan wybod y bydd rhywbeth yn cael ei wneud'*. Yn yr un modd, mae gweithwyr proffesiynol o asiantaethau eraill yn hyderus i atgyfeirio at Gysylltydd, gan wybod y bydd y Cysylltydd yn rhoi gwybodaeth, cyngor neu gymorth. Adroddodd y gwasanaeth (Chwarter 3, 2017-18) fod 100% o bobl wedi dweud bod Cysylltydd wedi'u trin ag urddas a pharch, a bod 89% wedi dweud bod Cysylltydd wedi helpu i ddarparu'r hyn a oedd yn bwysig iddynt.

**Arbed arian:**

Ar adeg y cyfweiliad (Chwarter 3, 2017-18), dynododd y gwasanaeth fod ei ymyriadau, wrth ofyn yn uniongyrchol i gleientiaid a oedd y gwasanaeth wedi'u hatal rhag gorfod ffonio eu meddyg am gymorth, wedi o bosib atal yr angen am 157 o apwyntiadau meddygfa. Roedd hyn yn gyfwerth â £5,652 o arbedion. Mae'r gwasanaeth yn ceisio'n gyson i fesur Enillion ar Fuddsoddiad gan ddarparu tystiolaeth o gost a budd Cysylltwyr Cymunedol.

Arweiniodd y Gwasanaeth Brocera Trydydd Sector gwreiddiol yn PAVO at ehangu a datblygu Gwasanaeth Cydlynu Iechyd a Llesiant Cymunedol Powys sydd bellach wedi ennill ei blwyf. Mae deg Cysylltydd Cymunedol yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn lleoliadau lluosog ledled y sir, ym mhob tref farchnad a lleoliad allweddol. Mae'r gwasanaeth wedi meithrin partneriaethau pellgyrhaeddol ac wedi ennyn ffydd gweithwyr proffesiynol fel atgyfeirwyr a'r rheini a atgyfeirir. Mae'r Cysylltwyr Cymunedol yn fedrus ac yn llawn gwybodaeth ac empathi gan ymateb yn holistaidd i'r hyn sy'n bwysig i bobl. Maent yn gweithio'n greadigol i ddarparu cymorth cywir, yn y ffordd gywir ac ar yr amser cywir; gan geisio datblygu a chydgyhyrchu gwasanaethau newydd pan nad ydynt yn bodoli mewn cymunedau lleol, gan felly helpu i feithrin gallu mewn cymunedau i'w cynnal eu hunain.

**Diolch i'r bobl ganlynol am rannu eu profiadau o fod yn rhan o ddatblygu a darparu Gwasanaeth Cydlynu Iechyd a Llesiant Cymunedol Powys:**

Freda Lacey (Uwch Swyddog, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, PAVO)

Clair Powell (Cydlynnydd y Gwasanaeth Cydlynu Iechyd a Llesiant Cymunedol, PAVO)

Awdur: Dr Sally Rees (WCVA), Ebrill 2018